

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol a Bwriadoldeb) (Cymru) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol a Bwriadoldeb) (Cymru) 2022. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
27 Mis Medi 2022

RHAN 1

1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol a Bwriadoldeb) (Cymru) 2022 ["y Rheoliadau drafft"] yn diwygio adran 70(1) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"), i gynnwys person sy'n ddigartref ac ar y stryd, a pherson y gellid disgwyl yn rhesymol i'r person hwnnw sy'n ddigartref ac ar y stryd breswyllo gydag ef, fel disgrifiad o berson sydd ag angen blaenoriaethol am lety o dan Ran 2 o Ddeddf 2014.

Mae Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categoriâu Penodedig) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015") yn darparu ar gyfer categorïau penodedig o bobl y gall awdurdod lleol ddewis rhoi sylw iddynt wrth wneud penderfyniad ynghylch a yw rhywun yn fwriadol ddigartref ai peidio. Mae'r Rheoliadau drafft hefyd yn ychwanegu person sy'n ddigartref ac ar y stryd, a pherson y gellid disgwyl yn rhesymol i berson sy'n ddigartref ac ar y stryd breswyllo gydag ef, fel categori penodedig pellach o berson i Rheoliadau 2015.

2. Materion sydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Angen Blaenoriaethol - Mae adran 72(1)(c) o Ddeddf 2014 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu disgrifiadau pellach o bobl fel rhai sydd ag angen blaenoriaethol am lety. Ar hyn o bryd, mae deg disgrifiad o bobl sydd ag angen blaenoriaethol am lety wedi'u nodi yn adran 70(1).

Bwriadoldeb - Mae adran 78(2) o Ddeddf 2014 yn darparu na chaiff awdurdod tai lleol, wrth asesu ymgeisydd am gymorth gyda digartrefedd, roi sylw i a yw ymgeisydd wedi dod yn ddigartref yn fwriadol ai peidio at ddibenion adrannau 68 a 75, oni bai ei fod wedi penderfynu rhoi sylw i un neu ragor o'r categorïau o ymgeiswyr a bennir gan Weinidogion Cymru. Mae adran 78(1) o'r Ddeddf yn gosod rhwymedigaeth ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i bennu categorïau o'r fath.

Mae Rheoliadau 2015 yn pennu categorïau o ymgeiswyr at ddibenion adran 78. Mae'r rhestr hon yn rheoliad 2. Mae'n seiliedig ar adran 70 o'r Ddeddf, sy'n nodi'r rhestr o bobl sydd ag angen blaenoriaethol am lety.

4. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Diben y Rheoliadau drafft yw diwygio adran 70(1) o Ddeddf 2014, fel bod person sy'n ddigartref ac ar y stryd, a pherson y gellid disgwyl yn rhesymol i'r person sy'n ddigartref ar y stryd breswyllo gydag ef, yn cael eu hystyried fel rhai sydd ag angen blaenoriaethol am lety.

Bydd y Rheoliadau drafft yn dibynnu ar y diffiniad 'digartref ac ar y stryd' sydd wedi'i gynnwys ar hyn o bryd yn adran 71(2) o Ddeddf 2014. Mae'r diffiniad hwnnw fel a ganlyn:

ystyr 'digartref ac ar y stryd' ('street homeless'), mewn perthynas â pherson, yw nad oes llety ar gael i'r person ei feddiannu yn y Deyrnas Unedig neu yn rhywle arall, y mae'r person –

- a) â'r hawl i'w feddiannu yn rhinwedd buddiant ynddo neu yn rhinwedd gorchymyn llys,
- b) â thrwydded ddatganedig neu oblygedig i'w feddiannu, neu
- c) yn ei feddiannu fel preswylfa yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol sy'n rhoi i'r person yr hawl i barhau i feddiannu neu'n cyfyngu ar hawl person arall i adennill meddiant.

Effaith y diwygiad yw y bydd awdurdod lleol yn gallu parhau i fabwysiadu polisïau cymorth digartrefedd sy'n dilyn yn agos yr ymateb digartrefedd brys i bandemig y coronafeirws. Ers mis Mawrth 2020, roedd y dull lle nad oes 'neb yn cael ei adael allan' yn golygu bod awdurdodau lleol yn trin pobl sy'n ddigartref ac ar y stryd, yn ystod cyfnod pandemig Covid 19, fel rhai sy'n agored i niwed o ganlyniad i ryw 'reswm arbennig', a thrwy hynny mewn angen blaenoriaethol am lety. Pandemig Covid 19 yw'r 'reswm arbennig'.

Yn ymarferol, er mwyn lleihau'r risgiau i iechyd y cyhoedd i'r rhai sy'n cyflwyno'n ddigartref i awdurdod lleol, cafodd cymorth digartrefedd ei ddarparu i bawb.

O ganlyniad i'r Rheoliadau drafft, bydd pobl sy'n ddigartref ac ar y stryd, a'r bobl hynny y gellid disgwyl yn rhesymol i berson sy'n ddigartref ac ar y stryd breswyllo gyda hwy, mewn angen blaenoriaethol. Bydd y newid hwn yn gyson ag amcanion Gweinidogion Cymru na fydd dim troi yn ôl at bolisi ac arferion digartrefedd a oedd yn bodoli cyn y pandemig¹.

Bydd y Rheoliadau drafft hefyd yn effeithio ar sut mae awdurdod lleol, wrth benderfynu ar gais digartrefedd, yn dewis rhoi sylw i ba un a yw person sy'n ddigartref ac ar y stryd yn fwriadol ddigartref. Bydd gwneud y diwygiad hwn yn sicrhau bod pobl sy'n ddigartref ac ar y stryd yn cael eu trin yn gyson â'r categorïau eraill o bobl sydd wedi'u rhestru yn Rheoliadau 2015.

5. Ymgynghori

Mae adran 72(3) o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad os ydynt am ddiwygio'r categorïau Angen Blaenoriaethol. Nid oes angen gofyniad o'r fath ar gyfer newidiadau i reolau sy'n effeithio ar fwriadoldeb. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid cynnal ymarfer ymgynghori mewn perthynas â diwygiadau sy'n effeithio ar y Rheoliadau

¹ [Y Cyfarfod Llawn 30/11/2021 – Senedd Cymru \(senedd.cymru\)](#)

drafft yn eu cyfanrwydd, yn ogystal ag ail Offeryn Statudol posibl sy'n cwmpasu newidiadau posibl i Orchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 (bydd yr olaf yn cael ei ystyried yn ddiweddarach).

Dechreuodd ymarfer ymgynghori chwe wythnos ar 9 Mai a daeth i ben ar 20 Mehefin². Ystyriwyd bod y cyfnod ymgynghori byrrach hwn yn briodol oherwydd y newidiadau cyfyngedig i bolisiâu ac arferion, a fydd, os cytunir arnynt, yn adlewyrchu parhad o ran y trefniadau ymarferol a sefydlwyd ers dechrau'r pandemig.

Cafodd 51 o ymatebion eu cyflwyno yn ystod y cyfnod ymgynghori gyda phum ymateb arall yn cyrraedd ar ôl i'r ymgynghoriad gau ac maent wedi cael eu hystyried gan swyddogion. Darparwyd ymatebion gan y sector cyhoeddus, y trydydd sector a sefydliadau cynrychioladol yn ogystal ag ymatebwyr unigol. Darparwyd 25 ymateb lle na roddwyd enw na sefydliad neu lle gofynnodd yr ymatebydd i'w ymateb gael ei drin yn ddienw.

Roedd yr adborth gan yr ymatebwyr yn ailddatgan ymrwymiad cryf i bolisi Llywodraeth Cymru lle nad oes neb yn cael ei adael allan, ac at ychwanegu 'person sy'n cysgu allan' fel 11^{eg} categori angen blaenoriaethol fel modd o gyflawni'r polisi. Roedd mwy o ddadlau yn yr ymatebion ynghylch y diffiniad a gynigiwyd gan yr ymgynghoriad (yn debyg i'r diffiniad a ddefnyddir ar gyfer cyfrif data blynyddol cysgu allan) o berson sy'n cysgu allan. Roedd hyn yn adlewyrchu'r angen i'r diffiniad fod yn fwy manwl gywir o ran pwy all y person hwnnw fod ac o ran disgrifio'r defnydd ymarferol ohono. Roedd y pryderon yn canolbwyntio'n bennaf ar y derminoleg anghyfarwydd, cyfnod amser digartrefedd ac a ddylid dosbarthu symud o sofffa i sofffa a bod heb fynediad i lety o fewn y diffiniad. Roedd pryderon hefyd o ran digon o ddisgresiwn i awdurdod lleol gyflawni eu dyletswyddau, ac arwyddocâd datblygu canllawiau priodol i ddisgrifio person sy'n cysgu allan, y ffordd orau o ddilysu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a rheoli achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn llety.

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu hystyried yn ofalus wrth ddatblygu'r Rheoliadau drafft. Mae'r dadleuon a gyflwynwyd yn erbyn y diffiniad o bobl sy'n cysgu allan wedi llywio ein parodrwydd i fabwysiadu'r disgrifiad o bobl ddigartref ac ar y stryd a ddarperir gan adran 71(2) o Ddeddf 2014. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi derbyn y dadleuon dros ganllawiau i ychwanegu at y rheoliadau drafft i esbonio termau allweddol, megis pobl ddigartref ac ar y stryd ac wrth fynd i'r afael â darparu gwasanaethau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd canllawiau'n cael eu datblygu unwaith y bydd y rheoliadau drafft yn cael eu cytuno.

² [Mesurau digartrefedd dros dro ar ôl y pandemig | LLYW.CYMRU](#)

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Yr opsiynau

O ran y Rheoliadau drafft, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried nifer o opsiynau posibl. Mae'r rhain yn cynnwys:

- i. Dychwelyd i drefniadau cyn y pandemig, gan fod pandemig Covid 19 fel 'rheswm arbennig' yn llai perthnasol,
- ii. Dileu angen blaenoriaethol yn llwyr, a
- iii. Gwneud y ddeddfwriaeth (yr opsiwn a ffefrir) drwy ychwanegu person 'digartref ac ar y stryd' fel categori angen blaenoriaethol newydd.

7. Costau a manteision

Opsiwn 1: Dychwelyd i drefniadau cyn y pandemig, gan fod pandemig Covid 19 fel 'rheswm arbennig' yn llai perthnasol

Mae'n bosibl mai'r opsiwn hwn fyddai â'r costau uniongyrchol lleiaf i awdurdodau lleol a'u partneriaid sy'n darparu cymorth digartrefedd yng Nghymru ar hyn o bryd. Gydag awdurdodau lleol yn gallu rhoi'r Canllawiau presennol ar waith ac o bosibl yn gallu penderfynu nad yw pandemig Covid 19 bellach yn cyflwyno rheswm arbennig sy'n peri bod pobl ddigartref ac ar y stryd yn agored i niwed ac felly mewn angen blaenoriaethol. Gallai hyn olygu nad yw'r rhwymedigaeth i ddarparu llety dros dro yn ychwanegol at gymorth digartrefedd yn berthnasol. Er y gallai hyn arwain at arbediad ariannol, byddai'n golygu bod llawer o bobl yn dychwelyd i gyrion cymdeithas a mathau mwy ansicr o ddigartrefedd neu gysgu allan, a byddai'n debygol o olygu bod gwasanaethau cyhoeddus yn eu cyfanrwydd yn ysgwyddo mwy o gost.

Mae'r pandemig wedi bod yn un o'r cyfnodau mwyaf heriol a wynebwyd erioed gan dimau sy'n rhoi cymorth i bobl sydd mewn perygl neu sydd wedi eu gwneud yn ddigartref. Fodd bynnag, heb y dull lle nad oes 'neb yn cael ei adael allan', ni fyddai llawer o unigolion, nad oedd yn hysbys i ddarparwyr gwasanaethau, wedi bod yn gymwys i dderbyn llety dros dro a byddent yn annhebygol o fod wedi gofyn am gymorth, a gallai eu cyfleoedd bywyd fod wedi gwaethygu. Mae peryglon sylweddol bod pobl nad ydynt yn gymwys ar gyfer llety dros dro yn 'gwasgaru' i'r gymdeithas, ac y bydd y budd a'r arbedion drwy ystod o gamau ataliol, megis cael gafael ar wasanaethau iechyd, cymorth ariannol a chyflogaeth a chael sefydlogrwydd cartref diogel a sefydlog i ail-integreiddio i gymunedau, yn cael eu colli. Nid yw'r union gostau sy'n gysylltiedig â'r mesurau ataliol hyn yn hysbys ar hyn o bryd oherwydd nad ydynt wedi'u gwerthuso eto yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil cymdeithasol³ wedi darparu amcangyfrifon o arbedion tebygol a wnaed o ddefnyddio llai o wasanaethau allgymorth i bobl sy'n cysgu allan ac ar wasanaethau ehangach, fel y rhai ar gyfer iechyd corfforol ac iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a chyfiawnder troseddol. Dros gyfnod o bum

³ [Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru \(llyw.cymru\)](#)

mlynedd, byddai hyn yn arwain at arbediad cyfunol o bron i £5m ar gyfartaledd i awdurdodau lleol Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach.

Yn sgil y cyfleoedd a gollir o'r opsiwn hwn, ac am ei fod yn anghyson â blaenoriaethau Gweinidogion Cymru a'r dystiolaeth a'r dadleuon a ddatblygwyd gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd⁴ i annog y broses o drawsnewid gwasanaethau digartrefedd, rydym wedi gwrthod yr opsiwn hwn.

Opsiwn 2: Dileu angen blaenoriaethol yn llwyr

Mabwysiadwyd y dull lle nad oes 'neb yn cael ei adael allan' fel newid hanfodol ac ar unwaith i liniaru ar argyfwng iechyd y cyhoedd a grëwyd gan y pandemig. Ers hynny, mae awdurdodau lleol a phartneriaid wedi addasu yn rhyfeddol i ddarparu cymorth digartrefedd i bawb sydd ei angen. Fodd bynnag, mae'r newidiadau radical yr ydym wedi'u gweld wedi arwain at bwysau sylweddol ar y timau awdurdodau lleol hynny. Rydym yn cydnabod y dadleuon cryf o blaid cael gwared ar angen blaenoriaethol yn llwyr, ond er mwyn i hyn ddigwydd dylid cwblhau gwerthusiad mwy ystyriol, ac rydym o'r farn ei bod yn debygol o fod angen deddfwriaeth sylfaenol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol a'u partneriaid, y rhai sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen, i lywio'r trefniadau gweithio sefydlog ar gyfer gwasanaethau digartrefedd yn y dyfodol, a allai gynnwys opsiynau eraill a mwy effeithiol.

Mae Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd⁵ Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i werthuso deddfwriaeth bresennol ar atal digartrefedd, gan gynnwys yr hyn sy'n ymwneud ag angen blaenoriaethol. Disgwylir i'r ymarfer hwn archwilio opsiynau deddfwriaethol a rhai nad ydynt yn ddeddfwriaethol. Er y gallai fod yn bosibl dileu'r angen blaenoriaethol yn uniongyrchol, drwy newid i ddeddfwriaeth, mae'n bosibl y bydd dulliau eraill i'w hystyried yn lle hynny, drwy ddiwygio is-ddeddfwriaeth a chanllawiau neu ddull ariannu sy'n llwyddo i leihau'r galw ar wasanaethau. O ystyried yr opsiynau posibl hyn ac arwyddocâd dod â'r angen blaenoriaethol i ben, dylid ystyried yn ofalus y ffordd orau o weithio.

Yn sgil y rhesymau a amlinellwyd, rydym wedi gwrthod yr opsiwn hwn ar hyn o bryd.

Opsiwn 3: Gwneud y ddeddfwriaeth

Roedd yr ymateb brys i ddigartrefedd, a roddwyd ar waith i gydnabod yr effaith bosibl y gallai digartrefedd a chysgu allan ei chael ar yr argyfwng iechyd, yn cynnwys cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol a phartneriaid, i sicrhau bod darparu llety, ynghyd â chymorth, yn cael eu blaenoriaethu, fel rhan o'r ymateb ehangach o ran iechyd y cyhoedd. Mae'r data rheoli diweddaraf⁶ yn dangos bod y dull lle nad oes 'neb yn cael ei adael allan' wedi arwain at dros 24,000 o bobl a oedd gynt yn ddigartref yn derbyn cymorth i gael llety dros dro. Ers dechrau'r pandemig hyd heddiw, mae nifer y bobl sy'n cysgu allan wedi

⁴ [Y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd: adroddiad Gorffennaf 2020 \(llyw.cymru\)](#)

⁵ [Rhoi diwedd ar ddigartrefedd: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026 | LLYW.CYMRU](#)

⁶ [Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan](#)

amrywio o isel, sef 51 ym mis Chwefror 2021 i uchel, sef 131 ym mis Hydref 2021.

Fel yr amlinellir yn adran 4 o'r ddogfen hon, mae'r dull lle nad oes 'neb yn cael ei adael allan', a arweiniodd at awdurdodau lleol yn mabwysiadu dull 'niwtral' o ymdrin â'r angen blaenoriaethol ar gyfer pobl sydd mewn perygl neu'n profi digartrefedd ac ar y stryd, ac yn ei hanfod yn darparu cymorth digartrefedd i bawb, yn cynrychioli trawsnewidiad radical o wasanaethau atal digartrefedd yng Nghymru. Dyma newid a ddigwyddodd dros nos yng Nghymru, a wnaed dros gyfnod o naw mlynedd yn yr Alban⁷ o ganlyniad i Ddeddf Digartrefedd etc. (Yr Alban) 2003, a wnaeth yr ymrwymiad i ddiddymu angen blaenoriaethol yn 2012, ac yna Gorchymyn Digartrefedd (Diddymu Prawf Angen Blaenoriaethol) (Yr Alban) 2012 a roddodd effaith i'r ymrwymiad.

Mae cymharu'r trefniadau yn yr Alban â'r dull lle nad oes 'neb yn cael ei adael allan' yng Nghymru, a gwerthuso'r union effaith yn heriol o ystyried y gwahaniaethau o ran pa mor gyflym y digwyddodd y newidiadau hynny yn ogystal â'r polisi, arferion ac amgylchiadau gwahanol (oherwydd y pandemig) rhwng y ddwy wlad. Fodd bynnag, gwnaeth gwaith ymchwil cymdeithasol a wnaed ar ran Llywodraeth Cymru gynnal asesiad o gostau posibl a oedd yn benodol i gynnwys y prawf angen blaenoriaethol ar gyfer pobl sy'n cysgu allan. Er bod y gwaith hwn wedi'i gyhoeddi ym mis Hydref 2020, gwnaed y gwaith ymchwil a dadansoddi cyn y pandemig. Serch hynny, rydym o'r farn bod yr effaith bosibl a gyfrifwyd yn rhoi rhywfaint o fewnwelediad ynghylch y costau a allai ddeillio o'r diwygiadau. Gwnaeth y crynodeb o effeithiau amcangyfrifedig o drin pobl sy'n cysgu allan fel rhai sydd ag angen blaenoriaethol ganfod bod y gost flynyddol gyfunol i bob awdurdod lleol o'r:

- Galw ychwanegol am lety dros dro yn £157,794
- Cost ychwanegol o sicrhau llety yn £3,434
- Costau budd-daliadau tai ychwanegol yn £417,096
- Arbedion o ddefnyddio llai o allgymorth a gwasanaethau eraill (e.e. iechyd) yn £827,396

Roedd yr amcangyfrif yn seiliedig ar ragdybiaeth y byddai 178 o gartrefi yn elwa ar fod mewn angen blaenoriaethol. Fodd bynnag, mae'r rhai sydd wedi elwa ar y polisi lle nad oes neb yn cael ei adael allan, wedi bod yn grŵp sylweddol fwy na'r niferoedd amcangyfrifedig o bobl sy'n cysgu allan ac mae'r costau a gyfrifwyd yn llawer llai na'r arian a ddarparwyd i awdurdodau lleol drwy gynlluniau grant Llywodraeth Cymru ers dechrau'r ymateb brys i'r pandemig. O fis Ebrill 2020, ar gyfartaledd, rhoddwyd £2m y mis i awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu llety dros dro a chymorth cysylltiedig. Daw mesur arall o gostau ymestyn angen blaenoriaethol o'r gwaith ymchwil cymdeithasol o'r cyfrifiad ar gyfer ei ddiddymu dros gyfnod o bum mlynedd, a amcangyfrifwyd ei fod yn effeithio ar 1,989 o aelwydydd. Daeth hyn i'r casgliad bod y gost flynyddol gyfunol i bob awdurdod lleol o'r:

- Galw ychwanegol am lety dros dro yn £1,691,304

⁷ [Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru \(llyw.cymru\)](#)

- Cost ychwanegol o sicrhau llety yn £38,904
- Costau budd-daliadau tai ychwanegol yn £4,635,924
- Arbedion o ddefnyddio llai o allgymorth a gwasanaethau eraill (e.e. iechyd) yn £4,970,636

Mae'r amcangyfrifon hyn, sydd yn dangos y costau a allai fod wedi digwydd pe na bai'r pandemig wedi digwydd, yn dod yn agosach at y profiad o reoli'r polisi lle nad oes neb yn cael ei adael allan. Fodd bynnag, gan edrych ymlaen at amcangyfrif y costau tebygol sy'n gysylltiedig â'r diwygiadau arfaethedig, bydd nifer o'r costau sy'n gysylltiedig â'r newidiadau a wneir o ganlyniad i hynny, wedi'u hysgwyddo yn ystod y pandemig, pan gychwynnwyd y polisi lle nad oes neb yn cael ei adael allan. Er enghraifft, bydd gwariant ar recriwtio staff, caffael a buddsoddi mewn llety a chyllid ehangach o ran gwasanaethau tai a digartrefedd wedi'i wneud i raddau gwahanol. O ganlyniad, mae'r effaith yn fwy tebygol o gael ei ganfod drwy gadw gwasanaethau yn hytrach na chreu gwasanaethau.

Cyn y pandemig, roedd monitor Digartrefedd Crisis⁸ yn amcangyfrif bod bron i 9,000 o bobl yn cynrychioli cyfanswm y boblogaeth 'ddigartref craidd'⁹ yng Nghymru. Mae amcanestyniadau ar gyfer y dyfodol yn awgrymu y gallai digartrefedd yng Nghymru yn 2023 gyrraedd anterth o fwy na 10,000 cyn lleihau i tua 9,500 hyd at ganol y 2030au. Daw amcangyfrifon o'r fath gyda chafeatau ac amrywiaeth o ymyriadau, drwy gynyddu'r cyflenwad tai, modelau darparu Tai yn Gyntaf, newidiadau o ran lles a ffactorau economaidd a chymdeithasol ehangach, a allai effeithio ar y niferoedd yn y pen draw. Daw dangosydd pellach o'r galw o ddata rheoli cyfredol yr awdurdodau lleol, sy'n dangos bod bron i 8,000 o bobl yn byw mewn llety dros dro ar hyn o bryd¹⁰.

Rydym o'r farn mai un o'r cyfrifiadau allweddol yw deall profiadau'r rhai sy'n gwneud cais am gymorth digartrefedd drwy'r gwahanol gamau o gymorth sydd ei angen. Er y bydd unigolion yn gymwys ar gyfer y 'ddyletswydd lawn', ni fydd angen cymorth o'r fath ar bob un, ac i eraill sy'n cyflwyno i awdurdod lleol mae'n bosibl nad oes dyletswydd y maent yn gymwys ar ei chyfer. Fodd bynnag, rydym o'r farn y bydd awdurdod lleol yn dal i wynebu costau sy'n gysylltiedig â delio â chyflwyniadau, yn sgil y diwygiadau, sy'n arwain at ddyletswydd lawn (a chymorth cysylltiedig) neu ddim o gwbl.

Felly, ni fydd cyfrifo effaith ychwanegu pobl sy'n cysgu allan i'r rhestr o bobl sydd mewn angen blaenoriaethol yn cael ei gyfyngu i garfan gymharol fach o tua 90 o bobl (y cyfartaledd cofnodedig o bobl sy'n cysgu allan ers mis Awst 2020 yn seiliedig ar ddata rheoli). Rydym yn disgwyl y bydd y diwygiadau a wneir yn arwain at grŵp mwy a fyddai fel arall wedi cael eu cuddio, bellach yn dod yn gymwys i gael cymorth digartrefedd. Ers y pandemig, mae cymorth digartrefedd awdurdodau lleol wedi ei roi i unigolion yn unol â'u dyletswyddau i sicrhau llety o dan adran 73 o Ddeddf 2014. Rydym o'r farn y bydd y diwygiadau yn golygu bod

⁸ [CoreHomelessnessProjections2021_TechReport_ScWa2_002_.pdf \(hw.ac.uk\)](#)

⁹ Mae'r Monitor Digartrefedd yn diffinio'r boblogaeth ddigartref craidd fel y rhai sy'n cysgu allan, yn byw mewn hosteli, ac ati, yn byw mewn llety anaddas dros dro ac yn symud o sofffa i sofffa

¹⁰ [Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan: Ebrill 2022 | LLYW.CYMRU](#)

y ddarpariaeth hon yn parhau ac mae'r niferoedd y darperir cymorth iddynt drwy adran 73 yn darparu dull procsi ar gyfer asesu'r costau tebygol.

Mae ffurflenni data blynyddol Stats Cymru¹¹ yn dangos nifer yr aelwydydd a asesir fel rhai digartref ac mae dyletswydd i helpu i sicrhau llety yn berthnasol iddynt (drwy ddyletswydd adran 73). Gellir defnyddio'r data hyn i gymharu profiadau cyn ac yn ystod y pandemig, ar gyfer 2018-2019, 2019-2020 a 2021-2022 yn ôl y drefn honno. Yn anffodus, nid yw'r ffurflenni i gwmpasu 2021-2022, ar yr adeg pan oedd effeithiau'r pandemig yn dechrau llacio ar gael eto.

	2018-19	2019-20	2020-21
Canlyniadau	Nifer	Nifer	Nifer
Lliniaru llwyddiannus	4,779	5,088	5,088
Lliniaru aflwyddiannus	4,428	4,512	5,139
Cymorth wedi'i wrthod	123	123	129
Diffyg cydweithrediad	585	576	495
Cais wedi'i dynnu'n ôl	591	714	828
Cais wedi'i dynnu'n ôl oherwydd colli cyswllt	1,062	1,221	1,299
Rhesymau eraill	147	165	183
Cyfanswm Canlyniadau	11,715	12,399	13,161

Mae'r tabl yn dangos y cynnydd o ran nifer yr aelwydydd sy'n gymwys i gael cymorth digartrefedd drwy ddyletswydd adran 73. Roedd cyfradd y cynnydd am y ddwy flynedd cyn y pandemig¹² wedi codi o 3% a 4% yn y drefn honno bob blwyddyn, ac mae'n amlwg yn is na chyfradd y cynnydd ers hynny, sydd wedi codi 6%¹³.

Mae'r pandemig wedi rhoi darlun cliriach o nifer y bobl sy'n ddigartref. Fodd bynnag, wrth i'r cyfyngiadau o ran iechyd y cyhoedd gael eu llacio ac agweddau cyhoeddus cysylltiedig, mae'n bosibl y bydd y rhai a gafodd eu cuddio cyn y pandemig, fel pobl oedd yn symud o soffa i soffa, yn dychwelyd oddi wrth gael eu cefnogi gan awdurdodau lleol a phartneriaid, i ddibynnu ar rwydweithiau cymdeithasol yn lle hynny i ddarparu rhywle y gallant fyw ynddo. O ystyried yr ansicrwydd hwn, mae'n anodd pennu a fydd newidiadau pellach sylweddol. O ganlyniad, rydym yn tybio y bydd y boblogaeth ddigartref craidd yn parhau i fod ar lefel gymharol sefydlog am y tro.

¹¹ [Aelwydydd y mae cymorth wedi cael ei ddarparu iddynt yn ôl canlyniadau a'r math o aelwyd \(llyw.cymru\)](#)

¹² 2017-2018 a 2018-2019

¹³ 2019-2020 a 2020-2021

Er ei fod yn bosibl na fydd y galw am gymorth digartrefedd yn newid yn sylweddol, mae sawl ffactor sy'n effeithio ar gapasiti a gallu awdurdod lleol. Mae'r rhain yn cynnwys ymdrechion i adfer o'r pandemig, pwysau costau byw, fforddiadwyedd rhenti yn y sector rhentu preifat a grwpiau o bobl yn cyrraedd y DU, yn enwedig y rhai sy'n cael eu heffeithio gan y rhyfel yn Wcráin. Mae'r cyfuniad o'r ffactorau hyn yn golygu nad oes llawer o gapasiti i ganiatáu'r broses o gyflymu ar unwaith y broses o symud pobl o lety dros dro i gartrefi sefydlog a diogel.

Gwnaeth amcangyfrifon yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer Deddf Tai (Cymru) 2014 gyfrifo costau i awdurdodau lleol ar gyfer darparu gwasanaethau digartrefedd i ymgeiswyr ar gyfer y cyfnod 2015-16. Mae'r costau hyn wedi'u cynyddu i adlewyrchu chwyddiant yn y cyfamser, ac fe'u defnyddir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn i amcangyfrif y gost y gallai awdurdod lleol ei ysgwyddo i'r rhai sy'n ceisio cymorth digartrefedd.

Byddai'r gwaith hwn o ddarparu gwasanaethau digartrefedd yn cynnwys asesiad cychwynnol ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sydd naill ai ddim yn ddigartref neu'n anghymwys am gymorth. Rhagdybir bod cost yr asesiad hwn yn £428.40 fesul ymgeisydd "anghymwys" a £214.20 i unigolyn yr ystyrir "nad yw'n ddigartref". Wrth gyflawni'r ddyletswydd atal fel y'i rhagnodir gan ddeddfwriaeth 2014, amcangyfrifir bod y costau yn £1,112 fesul ymgeisydd.

Mae dyletswydd i liniaru ar ddigartrefedd i ymgeiswyr y mae atal yn methu neu yr ystyrir eu bod yn ddigartref wrth iddynt gael eu cyflwyno. Rhagdybir nad oes gan y ddyletswydd i liniaru ar ddigartrefedd unrhyw gost ychwanegol i'r ymgeiswyr hynny sydd eisoes wedi bod drwy'r ddyletswydd atal.

Ar gyfer achosion lle nad yw'r ddyletswydd i liniaru ar ddigartrefedd yn llwyddiannus, bydd gan ymgeiswyr y gellir eu hystyried fel rhai "cymwys, digartref, mewn angen blaenoriaethol ac yn ddigartref yn anfwriadol" ac y mae camau i liniaru ar ddigartrefedd yn aflwyddiannus, hawl i ddyletswydd lawn ar gost o £2,274 fesul ymgeisydd (£2,702.40 yn llai cost asesiad sef £428.40). Bydd y costau uwch hyn yn cael eu hysgwyddo ar gyfer aelwydydd sy'n gymwys i gael cymorth digartrefedd drwy ddyletswydd adran 73, ac mae angen amcangyfrif yr ystod bosibl o gynnydd.

Gan nad oes cyfrifiad manwl o gostau i awdurdodau lleol yn cael ei wneud yn flynyddol, rydym wedi amcangyfrif ar sail nifer y bobl y mae angen gwasanaethau arnynt. Dangosir y costau hyn yn Atodiad A. Dylid nodi y bydd amrywiaeth ymysg awdurdodau lleol, a fydd yn profi costau gwahanol i adlewyrchu'r galw am wasanaethau. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y bydd Caerdydd yn cael nifer uwch o geisiadau digartrefedd na Sir Fynwy ac o ganlyniad bydd y gofynion ariannu yn fwy. Yn seiliedig ar y rhagdybiaeth o newid bach pellach i'r galw am wasanaethau ac y bydd y diwygiadau yn arwain at barhad o ran pwysau presennol yn hytrach na chreu rhai newydd, credwn y dylid asesu'r costau i awdurdodau lleol fel rhai sy'n amrywio rhwng ystod positif o dwf rhwng 1.5%, 3% neu 6% o'r lefelau presennol. Bydd hyn yn cyfrif am ffactorau sy'n effeithio ar dwf, megis cynnydd mewn costau byw, mudo a rhent

yn erbyn dulliau lliniaru posibl ar bryderon y pandemig/iechyd y cyhoedd yn lleihau, ymyriadau tai amrywiol fel Tai yn Gyntaf, ailgartrefu cyflym a buddsoddiadau cyfalaf mewn cartrefi un ystafell wely yn gwneud cynnydd.

Yn seiliedig ar y tair cyfradd cynnydd cost, mae'r gwahaniaethau o ganlyniad yn amrywio o £30,377,036 yn 2021/2022 i £32,241,078 erbyn 2025/2026, yn seiliedig ar gynnydd o 1.5%, i gynnydd o £31,723,801 yn 2021/2022 gan godi i £40,050,568 erbyn 2025/2026, yn seiliedig ar y gyfradd o 6%. Yn sgil yr amrywiaeth o ffactorau a allai effeithio ar y costau yn y pen draw i awdurdod lleol, rydym yn amcangyfrif y gallai ffigur terfynol fod o fewn yr ystodau hyn.

Manteision

Mae adran 4 o'r Memorandwm Esboniadol hwn yn disgrifio'r manteision sy'n debygol o ddeillio o'r diwygiadau sydd i'w gwneud gan y Rheoliadau drafft. Yn fras, rydym yn rhag-weld y bydd y canlyniad a ddaw yn sgil hynny yn barhad o'r math o gymorth digartrefedd a ddarparwyd i'r rhai a oedd yn ddigartref ac ar y stryd ers dechrau cyfnod y pandemig, sy'n flaenoriaeth allweddol i Weinidogion Cymru, er mwyn lleihau'r risg o ddigartrefedd, a phe bai hynny'n digwydd, sicrhau ei fod yn brin, am gyfnod byr ac nad yw'n cael ei ailadrodd.

Mae manteision atal digartrefedd yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r costau ychwanegol, gwirioneddol o helpu pobl sy'n ddigartref, er enghraifft, y gost o ddarparu llety dros dro iddynt. Bu sawl astudiaeth¹⁴¹⁵¹⁶¹⁷ yn archwilio'r costau sy'n gysylltiedig â darparu cymorth digartrefedd, sy'n cydnabod yr arbedion sylweddol a allai gael eu gwneud yn sgil ymyrraeth effeithiol. Gall gwasanaethau digartrefedd effeithiol ddarparu manteision a allai bara oes rhywun. Maent yn cynnwys gwell iechyd a lles, datblygiad ac addysg plant, ac oedolion yn cymryd rhan y farchnad lafur ac yn cyfrannu at allbwn economaidd. O ganlyniad, gellir lleihau'r galwadau ar rai gwasanaethau, er enghraifft gwasanaethau digartrefedd yr awdurdodau lleol a gwasanaethau'r GIG a gofal cymdeithasol. Dangoswyd bod y manteision yn drech na'r costau, yn aml i raddau sylweddol, yn enwedig o gofio mai anaml y bydd rhywun sy'n ddigartref ac ar y stryd yn profi'r anfantais honno ar ei ben ei hun. Bydd llawer o unigolion hefyd yn cael eu heffeithio'n negyddol gan eu hiechyd meddwl a'u camddefnydd o sylweddau. Po hiraf y teimlir y profiadau hynny, yn aml yr anoddaf y bydd i wella, ac a fydd angen hyd yn oed mwy o gymorth a chost.

Bydd manteision gweithredu'n effeithiol yn cyfrannu at gyflawni sawl un o ddeddfau Llywodraeth Cymru, megis Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Deddf Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig (Cymru) 2015.

¹⁴ [At what cost? | Crisis UK | Together we will end homelessness](#)

¹⁵ [Better than cure? | Crisis UK](#)

¹⁶ [Hard-Edges-Mapping-SMD-2015.pdf \(lankellychase.org.uk\)](#)

¹⁷ [assessing the costs and benefits of crisis- plan to end homelessness 2018.pdf](#)

8. Asesu'r Gystadleuaeth

Amherthnasol.

9. Adolygu ar ôl gweithredu

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu panel adolygu arbenigol i ystyried polisi a chyfraith tai a digartrefedd yng Nghymru. Un elfen o gylch gwaith y Panel fydd ystyried opsiynau mewn cysylltiad â rheolau sy'n effeithio ar bobl sydd ag angen blaenoriaethol am lety. Rydym yn rhag-weld y bydd gennym sylfaen dystiolaeth i werthuso'r Rheoliadau unwaith y bydd gwaith y Panel wedi dod i ben.

Atodiad A

	Canlyniad										
	£428.40 fesul ymgeisydd “anghymwys”			£214.20 fesul ymgeisydd yr ystyirir “nad yw’n ddigartref”		£1,112 fesul ymgeisydd sy’n gymwys i gael cymorth yn unol â'r ddyletswydd atal		£2,274 fesul ymgeisydd cymwys, digartref, yn ddarostyngedig i ddyletswydd i gynorthwyo i sicrhau llety (Adran 73)		£2,274 fesul ymgeisydd a allai gael ei ystyried yn gymwys, yn ddigartref, mewn angen blaenoriaethol ac yn anfwriadol ddigartref (Adran 75)	
Cyfnod	Nifer		Cost	Nifer	Cost	Nifer	Cost	Nifer	Cost	Nifer	Cost
2016-2017	450		£192,780	4752	£1,017,878	9231	£10,264,872	10908	£24,804,792	2073	£4,714,002
2017-2018	387		£165,791	4194	£898,355	9072	£10,088,064	11277	£25,643,898	2226	£5,061,924
2018-2019	408		£174,787	3819	£818,030	10737	£11,939,544	11715	£26,639,910	2631	£5,982,894
2019-2020	321		£137,516	3948	£845,662	9993	£11,112,216	12399	£28,195,326	3060	£6,958,440
2020-2021	303		£129,805	3735	£800,037	7290	£8,106,480	13161	£29,928,114	3792	£8,623,008
2021-2022	1.5%	308	£131,752	3791	£812,038	7399	£8,228,077	13358	£30,377,036	3849	£8,752,353
	3%	312	£133,699	3847	£824,038	7509	£8,349,674	13556	£30,825,957	3906	£8,881,698
	6%	321	£137,594	3959	£848,039	7727	£8,592,869	13951	£31,723,801	4020	£9,140,388
2022-2023	1.5%	312	£133,729	3848	£824,218	7510	£8,351,498	13559	£30,832,691	3907	£8,883,638
	3%	321	£137,710	3962	£848,759	7734	£8,600,165	13963	£31,750,736	4023	£9,148,149
	6%	340	£145,849	4197	£898,922	8191	£9,108,441	14788	£33,627,229	4261	£9,688,812
2023-2024	1.5%	317	£135,734	3906	£836,581	7623	£8,476,771	13762	£31,295,182	3965	£9,016,893
	3%	331	£141,842	4081	£874,222	7966	£8,858,170	14381	£32,703,258	4144	£9,422,594
	6%	361	£154,600	4448	£952,857	8683	£9,654,947	15675	£35,644,863	4516	£10,270,140
2024-2025	1.5%	322	£137,771	3964	£849,130	7737	£8,603,922	13969	£31,764,609	4025	£9,152,146
	3%	341	£146,097	4204	£900,449	8205	£9,123,915	14813	£33,684,356	4268	£9,705,271
	6%	383	£163,876	4715	£1,010,028	9203	£10,234,244	16615	£37,783,554	4787	£10,886,349
2025-2026	1.5%	326	£139,837	4024	£861,867	7853	£8,732,981	14178	£32,241,078	4085	£9,289,429
	3%	351	£150,480	4330	£927,462	8451	£9,397,632	15257	£34,694,887	4396	£9,996,430
	6%	405	£173,709	4998	£1,070,630	9756	£10,848,299	17612	£40,050,568	5075	£11,539,530

